# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

TACHWEDD 1976

RHIF 35


# Ffarwelio â Chôr Enwog

## Cymdeithas Gorawl Aelwyd Caerdydd 1960-76

**Fel y gŵyr nifer o bobl bellach, bydd y Côr enwog hwn yn perfformio am y tro olaf ar nos Sadwrn, Tachwedd 20 yn Neuadd Gyngerdd y Brifysgol, Corbett Road, dan ei arweinydd Alun Guy. Mae'r Côr yn dod i ben oherwydd fod Alun Guy wedi derbyn gwahoddiad i gyfarwyddo Côr mawr yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd dros y ddwy flynedd nesaf.**

Mewn rhagair i raglen y cyngerdd olaf, dywed yr arweinydd fel hyn:

"Fel catalyst y gwelwn fy hun yn bennaf — i gyfarwyddo ac i wireddu breuddwyd Gwilym Roberts — ac i roi sbardun y tu ôl i ieuenctid y brifddinas, fel yn Abertawe ar y prynhawn Llun bythgofiadwy hwnnw yn 1964.

Bellach, mae'r Côr wedi cyflawni'i bwrpas, ac mae cyfnod arbennig iawn yn dirwyn i ben. Cyfnod a welodd dros 500 o gantorion ifainc o Gymru ben baladr yn canu efo'r Côr; cyfnod a sefydlodd 36 o briodasau ar aelwydydd Cymru."

Un ymffrost fawr sy gan y Côr, sef mai nhw a gyfrannodd y ddwy fil o bunnau gyntaf a aeth tuag at brynu Canolfan yr Urdd yn Heol Conwy. Arian a enillwyd trwy gystadlu ar y Prif Gorawl, yr Ail Gorawl a'r Côr Ieuenctid, gan ennill y tair cystadleuaeth o fewn cyfnod o ddeuddeg mis. Mae'r piano newydd a brynwyd gan y Côr yn awr yn aros yn y Ganolfan fel rhodd i gofio am y Côr.

Nid oes ond pedwar o'r côr gwreiddiol a ffurfiwyd ym 1960 yn dal yn ffyddlon — dynion i gyd! Gwilym Roberts, Iolo Walters, David Lloyd ac Iwan Guy yw'r rhain.

Yn ystod yr un mlynedd ar bymtheg (1960-1976), fe ddysgodd y Côr 90 o ranganeuon, ac fe roddwyd dros 60 o gyngherddau yn rhad ac am ddim tuag at wahanol fudiadau, capeli ac ati. Wele restr o'r artistiaid a ganodd efo'r Côr: Rae Woodland, Robert Thomas, John Noble, Margaret Price, Wilfred Brown, Margaret Duckworth, Anelma Jones, Beverley Humphreys, Dennis O'Neill, Iwan Guy, Richard Rees, Kenneth Bowen, Janet Price, Jeffrey Hobbs, Rhiannon Davies, Astra Blair, Richard Standen, Lucille Graham, Wynford Evans, Janice Chapman, Jean Allister, Keith Erwen, Thomas Lawlor, Maureen Guy, Della Jones, Margaret Hewitt, Stuart Kale, Susan Lees, Charles Corp.

Fe roddwyd perfformiad cyntaf o'r tri gwaith canlynol:-
*Orestes* Daniel Jones (Gŵyl y BBC, Llandaf);
*Ieuenctid y Dydd* Alun Hoddinott (Gŵyl Llandaf — dathlu hanner can mlwyddiant yr Urdd);
*Tri Darlun* Arwel Hughes (15fed Penblwydd y Côr).

Yn ogystal, fe berfformiwyd ugain o'r gweithiau mawr corol safonol, gan gynnwys *Requiem* Verdi, *Requiem* Mozart, *Y Meseia* Handel,

*(parhad ar dud. 12)*


## Y WOBR RYNGWLADOL

Cyrhaeddodd y llenor o'r Swistir, Friedrich Dürrenmatt, Cymru ar 1 Tachwedd ac y mae ef a'i wraig yn treulio pythefnos yn y wlad fel gwesteion Cyngor Celfyddydau Cymru a Phrifysgol Cymru.

Trefnwyd rhaglen lawn i gyd-fynd ag ymweliad Herr Dürrenmatt yng Nghaerdydd, Abertawe, Aberystwyth, Bangor a Llanbedr Pont Steffan: bydd perfformiadau cyhoeddus o rai o'i ddramâu yn ogystal â seminarau, arddangosfeydd, darlithoedd a darlleniadau o'i farddoniaeth.

I nodi achlysur y dyfarniad mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi comisiynu cyfieithiadau i'r Gymraeg o ddrama a nofel gan Friedrich Dürrenmatt a chyfieithiad i'r Saesneg o gyfrol o ysgrifau ar y theatr ganddo.

Cyflwynir y Wobr, o £1,000, i Herr Dürrenmatt mewn derbyniad yng Nghaerdydd ar 12 Tachwedd. Bwriad y Wobr yw cydnabod camp arbennig ym myd llenyddiaeth gyfoes yn Ewrop. Ym 1974, blwyddyn gychwynnol y Wobr, fe'i dyfarnwyd ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Llenyddiaeth i'r llenor enwog o Ffrainc, Eugéne Ionesco.



*Llun hanesyddol: Côr yr Aelwyd ddechrau'r chwedegau. O, ieuenctid ffol ...! Diolch i Gwilym Roberts am y llun.*

**Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Ragfyr 10fed. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn TACHWEDD 29 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Siân Edwards, Golygydd *Y Dinesydd* 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.**

# *"Llys" nafedd*

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Pan oeddwn i ar fy ngwyliau yn Eisteddfod Aberteifi, fe gyflawnais drosedd fach, sef atgoffa Cyngor Sir Dyfed o'u dyletswydd i godi arwyddion ffordd dwyieithog o flaen arwyddion twristiaeth! Yn anffodus, cefais fy nal gan yr Heddlu ar y pryd. Wrth gwrs, dyma'r llys yn ysgrifennu ataf yn fy nghyhuddo o'r drosedd llythyr Saesneg, wrth gwrs. Ysgrifennes yn ôl yn gofyn am drosiad Cymraeg; ces y ddogfen hon y diwrnod* ar ôl *i'r cyhuddiad gael ei glywed yn Eglwyswrw. Nid dogfen mewn llawysgrifen flodeuog oedd hon, fel yr un Saesneg, ond dalen ffotocopi, bron yn anweledig, yn frwnt ac yn grychlyd.*

*Gan ddiolch am "equal validity for the Welsh language", anghofies am y peth am ysbaid, hyd nes i mi gael llythyr oddi wrth Glerc yr Ynadon yn gofyn am ddecpunt o ddirwy. Ond, y dyn dwl, llythyr Saesneg eto! Ysgrifennes innau'n ôl (am y drydedd waith yn awr) yn gofyn iddo i beidio â bod yn lletchwith ac anfon popeth i mi yn Gymraeg. Ar yr un pryd, gofynnes am fwy o amser i dalu'r ddirwy gan fy mod i'n fyfyriwr tlawd ac ati. (Mae'n debyg fod gen i'r hawl i wneud hyn gan fod y ddogfen yn cynnig y gwasanaeth hwn mewn brawddeg ar y gwaelod, ac yn dweud hefyd, "This document will be provided in Welsh if you require it".)*

*Ond cafodd fy llythyr boneddigaidd ei anfon yn ôl â hyn wedi'i ysgrifennu drosto:*

**If you are a student you should be able to read and speak English.**
**M. Jones, Assistant Clerk.**

*Dim byd arall.*

*Rwy wedi ysgrifennu yn ôl at y cymeriad yma yn rhoi amodau iddo/iddi (8½c eto) rhag i mi fynd at y wasg, Merlyn Rees, Henry Kissinger ac ati ac ati. A dyna'r stori hyd yn hyn —rwy'n siwr bydd 'na fwy i ddilyn!*

*Ar frys, gan fy mod i ar fy ffordd i Swyddfa'r Post i brynu mwy o wyth-a-hanners, rhag ofn!*

*PETER DAVIES,*
*Rhiwbeina, Caerdydd.*

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# LLYTHYRON

## *"Rhwygo'r Genedl a Lladd yr Iaith..."*

*SYR,*

*Yr oedd darllen eich nodyn golygyddol yn ymwneud â llythyr oddi wrth un o'r Adferwyr yn brofiad rhyfedd ac anesboniadwy i mi. Yr oeddech yn llygad eich lle yn cyhuddo Adfer o rwygo Cymru yn "Fro Gymraeg" a "Wales". Ond ar yr un pryd, yr oeddech chwithau am rwygo'r genedl ar linellau hynod debyg i eiddo'r Adferwyr.*

*Os deellais yn iawn, yr ydych chwithau am alltudio'r iaith Gymraeg yn gyfangwbl o'r mwyafrif llethol o gartrefu Cymru trwy ei chau allan o "Radio Wales" a'i chyfyngu i'r gwasanaeth lleiafrifol "Radio Cymru" na bydd hyd yn oed yn medru cyrraedd Cymru alltud o gwbl, nac ychwaith filoedd lawer o Gymry sydd ar aelwydydd neu'n teithio mewn ceir yn eu gwlad eu hunain. Cefais yr argraff eich bod hefyd o blaid lluchio'r Gymraeg oddi ar bob sianel deledu boblogaidd a'i chyfyngu i un sianel deledu Gymraeg leiafrifol y bydd 95% o gartrefi Cymru'n ei hanwybyddu'n llwyr.*

*Tybed a ydych yn sylweddoli' gwirioneddau hyn?*

*1) Nid oes ond rhyw gan mil o aelwydydd Cymraeg yn bod bellach.*

*2) Mae mwy o gartrefi cymysg eu hiaith na sydd o gartrefi Cymraeg yng Nghymru, a llaweroedd mwy wedyn o aelwydydd uniaith Saesneg.*

*3) Mae'r Cymry Cymraeg i gyd bron yn ddwyieithog, ac y mae tystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu y bydd mwyafrif sylweddol ohonynt yn dewis gwasanaethau radio a theledu yn yr iaith Saesneg yn unig os rhennir y gwasanaethau ar sail iaith, yn union fel y mae'r mwyafrif o'r Cymry Cymraeg yn dewis darllen llyfrau a chylchgronau a newyddiaduron Saesneg, yn hytrach na rhai Cymraeg. Ar oriau brig y mae'r gystadleuaeth gryfaf.*

*4) Mae pawb sy'n hyrwyddo sefydlu "Radio Cymru" a sianel deledu Gymraeg yn cynorthwyo gelynion y Gymraeg i ddiffodd sŵn yr iaith am byth yn y mwyafrif llethol o gartrefi Cymru ac yn sigio cynffon gefnogol dros Mr. Leo Abse a'i ddilynwyr gwrth-Gymreig.*

*5) Mae gwrthod lle i'r Gymraeg ar sianeli teledu poblogaidd yn chwarter ola'r ugeinfed ganrif yn gymaint o ergyd i'r iaith ag y bu gwrthod lle iddi yn y prif gyfryngau addysgol gan mlynedd yn ôl.*

*6) Mae'r iaith Gymraeg wedi colli cymaint o dir a siaradwyr bellach fel na all hi ddal ergyd o'r math yma. Bydd yn amhosibl ei hachub oni chaiff hi gyfle teg i dreiddio i bob cartref trwy'r wlad ar wasanaethau radio poblogaidd a sianeli teledu poblogaidd.*

*7) Os yw'r Gymraeg i fyw, mae'n rhaid iddi gael ei chydnabod fel iaith genedlaethol i'r genedl yn ei chrynswth, yn iaith a fydd yn treiddio'n gyson i bob aelwyd trwy'r wlad, yn iaith y bydd yn anodd i neb sy'n byw yng Nghymru fedru osgoi ei chlywed yn gyson.*

*Os deellais yn iawn, yr ydych chwithau am rwygo'r genedl a sicrhau y cyfyngir y Gymraeg i leiafrif, fel y bydd yn marw mewn dinodedd, heb i gorff y genedl sylweddoli fod ei seiniau'n cael eu llefaru o gwbl bellach.*

*JAC L. WILLIAMS,*
*Aberystwyth.*

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Byddem yn ddiolchgar am ofod i dynnu sylw darllenwyr at ddau benderfyniad pwysig ynglŷn â rheolau Eisteddfodau'r Urdd a wnaethpwyd yn ddiweddar gan Gyngor y mudiad.*

*1. Pwysleisir mai 31 Ionawr, 1977 (nid Dydd Calan) yw'r dyddiad olaf i gofrestru er mwyn cystadlu mewn Eisteddfod Gylch neu Ddosbarth. Gofynnir ar yr un pryd i Adrannau ac Aelwydydd gofrestru eu haelodau cyn gynted fyth ag sy'n bosibl er mwyn manteisio'n llawn ar gyfoeth darpariaeth yr Urdd i'w haelodau.*

*2. Y glynir yn gaeth at y rheol uchod a bod disgwyl i Ysgrifennydd Eisteddfod Cylch, Dosbarth neu Sir wrthod unrhyw gystadleuydd, boed unigolyn neu aelod o barti, côr, ac ati, oni fydd ei ffurflen gofrestru a'i dâl aelodaeth (20 ceiniog) wedi cyrraedd yr Adran Gofrestru, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, erbyn neu yn ystod dydd Llun, 31 Ionawr, 1977.*

*Gofynnwn i bawb graffu'n ofalus ar y penderfyniadau uchod a'u cadw mewn cof rhag i unrhyw ddiflastod ddigwydd fel canlyniad i wrthod cystadleuwyr a gofrestrodd yn hwyr. Gyda chyfundrefn eisteddfodol yr Urdd yn tyfu mewn poblogrwydd a chefnogaeth mae'n anorfod fod yn rhaid glynu'n gaeth at reol mor allweddol a hon. Dim ond trwy ei pharchu y medrwn fod yn deg a phawb.*

*Yn gywir,*

*J. CYRIL HUGHES*
*(Cyfarwyddwr)*
*ELVEY MACDONALD*
*(Trefnydd yr Eisteddfod)*

*ANNWYL SYR,*

*Fel y gŵyr y rhan fwyaf o bobl erbyn hyn mae'n siwr, fe gynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn nhref y Barri ym mis Mehefin 1977. Amcangyfrifir y bydd costau cynnal yr Eisteddfod yn £70,000 ac o'r herwydd mae pawb i lawr yma wrthi'n brysur iawn yn casglu arian drwy gynnal pob math o weithgareddau. Mae gennym un cynllun gwych iawn i godi arian oherwydd fe fu Cwmni Stampiau 'Green Shield' mor garedig â chytuno i dalu 60 ceiniog i Gronfa'r Eisteddfod am bob llyfr llawn o stampiau gwyrdd a gesglir gennym. Tybed a oes modd i ddarllenwyr eich papur chi ymuno yn ein hymgyrch i gasglu'r stampiau hyn? Fe allai'r cynllun hwn o'i drefnu'n effeithlon a brwdfrydig a chael cydweithrediad pobl Cymru, ateb problemau ariannol Eisteddfod yr Urdd. Mae 100 o lyfrau llawn yn werth £60 i ni; 834 o lyfrau llawn yn werth £500, ac fe ddeuai 83,400 o lyfrau a £50,000 i goffrau'r Eisteddfod!*

*Mae'n siŵr fod yna 83,400 o bobl yng Nghymru a fyddai'n fodlon rhoi un llyfr llawn o'r stampiau hyn i Eisteddfod yr Urdd. Beth amdani bobl? A*

*fyddech yn fodlon ein helpu i gasglu stampiau? Yr ydym yn barod i dderbyn stampiau rhydd yn ogystal â llyfrau o stampiau oherwydd y mae pob stamp yn arian i'r Urdd.*

*Bydd o ddiddordeb i chi wybod fod Cwmni Stampiau 'Green Shield' yn barod i helpu Eisteddfod yr Urdd fel hyn BOB BLWYDDYN o hyn ymlaen a phan ddaw'r Eisteddfod i ymweld â'ch ardal chi, fe ellwch chwithau ofyn am help gan Gymru gyfan.*

*Yr ydym yn cynnig set Deledu Lliw i'r ysgol sydd yn casglu fwyaf o stampiau (pro rata) ac yn cynnig beic yr un i'r bachgen a'r ferch sy'n casglu fwyaf o stampiau.*

*Gellir danfon y llyfrau a stampiau rhydd naill ai i Swyddfa'r Urdd yn Aberystwyth neu at Mr Elwyn Richards, Ysgol Sant Baruc, High Street, Y Barri, De Morgannwg. (Ffôn Y Barri 5595).*

*Cesglwch STAMPIAU GWYRDD I EISTEDDFOD YR URDD A THROWCH Y DARIAN YN ARIAN!*

*Diolch yn fawr,*
*Yn gywir,*

*ISLWYN JONES,*
*Is-Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd,*
*Y Barri a'r Fro, 1977.*

## CALENDR TACHWEDD — RHAGFYR

### TACHWEDD

13 Plaid Cymru, Tonteg FFAIR HYDREF Neuadd Tonteg 11.00a.m.

17 Mudiad Meithrin BORE COFFI Cylch y Waun 10.00a.m.
Cymdeithas Eglwys Heol y Crwys NOSON WERIN dan ofal Minwel a Delwyn Tibbott a Gareth Williams 7.30p.m.

18 Cwrs y Dyffryn NOSON LAWEN Mair Robbins, Randal Isaac ac eraill. Clwb Marconi, Larnog 8.30p.m.

20 Plaid Cymru FFAIR NADOLIG Y BLAID Neuadd y Ddinas 2.00p.m.
Cymdeithas Gorawl Aelwyd Caerdydd CYNGERDD FFARWEL Neuadd y Brifysgol, Corbett Road, Caerdydd 7.00p.m.

20-21 Cwmni Theatr Cymru DAU WERTH CHWECH gyda John Ogwen a Maureen Rhys. Canolfan Gelfyddydau Chapter, Treganna 8.00p.m.

27 Ysgol Feithrin Llandaf FFAIR yn festri Severn Road 2.00p.m.
Cymdeithas Gorawl Eglwys y Crwys Y MESEIA dan arweiniad Tom Ellis James 7.30p.m.

30 Eglwys West Grove Cyfarfod Teyrnged i Alun Guy 7.30 p.m.

### RHAGFYR

1 Cymdeithas Eglwys Heol y Crwys FFAIR RHOS Darlith gan Moc Rogers 7.30p.m.

3 Cymdeithas y Cymrodorion CYNGERDD gan BARTI'R WENALLT Capel y Tabernacl 7.30p.m.

8 Y Gymdeithas Lenyddol CYMRAEG BYW Dr Ceinwen Thomas a Mr Illtyd Lewis ORIEL, 53 Heol Siarl 7.30p.m.

13 Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd DATHLU'R NADOLIG gyda Mrs Meudwen Davies a phlant Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd. Capel Bethel 7.30p.m.

# "Annwyl Jhazala..."

**Mae plentyn bach tlawd yn un o wledydd y Trydydd Byd yn mynd i dderbyn addysg na fyddai wedi gallu ei gael fel arall, diolch i blant ac athrawon Ysgol Gymraeg Pont Sion Norton, Pontypridd. O dan gynllun Noddi Plentyn y *Save the Children Fund*, bydd yr ysgol yn cyfrannu £50 y flwyddyn am y saith mlynedd nesaf i sicrhau addysg gyflawn i'r plentyn.**

Mewn gwasanaeth Cynhaeaf a gynaliwyd yn yr ysgol, a thrwy gyfraniadau gan yr athrawon hefyd, casglwyd dros £50 eisoes, i dalu am flwyddyn gyntaf y cynllun.

Merch fach o'r enw Jhazala Jamal o Shaqoor Market, yn agos i Karachi fydd yn derbyn y nawdd. Mae Jhazala yn naw mlwydd oed ac yn un o bedwar o blant i deiliwr tlawd. Dywedir ei bod yn hoff o ddarllen ac ysgrifennu, ei bod yn lled ffraeth ei thafod — ac yn hoffi criced! Fe fydd hi'n danfon at blant Pont Sion Norton i adrodd ei hynt a'i helynt wrthynt, a gallant hwythau ysgrifennu 'nol ati.

Heblaw am y budd sylweddol i Jhazala ei hun, bydd plant yr ysgol yn elwa hefyd drwy fod mewn cysylltiad mor agos â hyn â phlentyn o wlad a chefndir cwbl wahanol iddyn nhw. Gallant wneud project ar y wlad a dysgu amdani mewn llyfrau — a chael gwybodaeth uniongyrchol ynglŷn â'r wlad oddi wrth eu ffrind bach yno.

Llongyfarchiadau i Ysgol Pont Norton ar gymryd rhan yn y fath gynllun gwych — a phob hwyl i Jhazala yn yr ysgol. Edrychwn ymlaen at glywed rhagor o'i hanes cyn hir.




ELEANOR JONES



GWYN PARRY

WSTIBETHNA

Ar ddydd Iau am 4.25p.m.
i'r plant
gan
HTV CYMRU WALES

O'r Ganolfan Deledu, Caerdydd.


# Cartre'r Dewraf o'n Hawduron

Mae Cyngor Cymuned Llanberis, Sir Gaernarfon yn lansio apêl genedlaethol er mwyn codi arian i adnewyddu'r tŷ lle magwyd un o'r llenorion mwyaf a welodd Cymru erioed, sef y diweddar T. Rowland Hughes. Gobaith y Cyngor yw y defnyddir y tŷ, sef "Angorfa", Stryd y Dŵr, Llanberis gan y genedl yn ogystal â chan bentrefwyr Llanberis. I'r perwyl hwn, gobeithir creu amgueddfa neu arddangosfa barhaol o weithiau, lluniau, llythyrau a gwobrau eisteddfodol y llenor yn y tŷ, a fyddai'n atyniad i ymwelwyr o bob rhan o Gymru.

Prif ddefnydd "Angorfa" fydd canolfan cyfarfod ddyddiol i oedolion a chynchwarelwyr yr ardal, lle i sgwrsio, darllen a difyrru eu hunain dros baned. Gobeithir defnyddio'r tŷ hefyd ar gyfer pwyllgorau a chyfarfodydd trafod, ac yn storfa i ddogfennau a defnyddiau'r ardal.

Er nad yn Angorfa y cynhyrchodd T. Rowland Hughes y rhan helaethaf o'i waith, mae'n wir mai yno y cafodd y weledigaeth a'r symbyliad i greu ei gampweithiau llenyddol. Yn wir, dyma ddeunydd crai rhai o'i nofelau a'i gerddi. Seiliwyd *O Law i Law* ar y fangre hon. Diolch am Gyngor Cymuned mor oleuedig â Chyngor Llanberis sy'n edrych tu hwnt i broblemau ariannol a chwyddiant er mwyn sicrhau y cedwir "i'r oesau a ddel y glendid a fu."

Y mae'r apêl hon yn haeddu cefnogaeth genedlaethol — ac yn haeddu ein cefnogaeth ni yma yng Nghaerdydd yn arbennig, gan gofio cysylltiadau'r awdur â'r brifddinas. Am fwy o fanylion, danfoner at Mr Ken Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis, neu danfonwch eich cyfraniadau yn syth i "Cronfa Cartref T. Rowland Hughes", Clerc y Cyngor Cymuned, d/o Banc y Midland, Llanberis.

(Diolch i *Eco'r Wyddfa* am y wybodaeth hon.)

# TUDALEN Y DYSGWYR

## NEWYDDION

*Newyddion da o'r Gogledd — mae cwmni* **Cyhoeddiadau Mei,** *Y Groeslon, Sir Gaernarfon yn mynd i gyhoeddi cylchgrawn arbennig i ddysgwyr. Bydd y cylchgrawn newydd yn dod allan bob dau fis a bydd y rhifyn cyntaf allan ddechrau'r flwyddyn nesaf.*

*Ar hyn o bryd, does dim enw gan y cylchgrawn — ac y mae'r cyhoeddwyr yn cynnig gwobr am awgrymu enw addas iddo fe. Un o recordiau Cwmni Sain fydd y wobr. Felly, anfonwch eich awgrym chi ar unwaith — a chofiwch ddweud pa record y byddech chi'n hoffi ei chael, rhag ofn mai chi fydd yn ennill. Dyma'r cyfeiriad: Cyhoeddiadau Mei, Bryn Mawr, Dolydd, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. Anfonwch ar unwaith!*

### NOSON FAWR

*Peidiwch ag anghofio'r Noson Lawen yng Nghlwb Marconi, Larnog (Lavernock) nos Iau, Tachwedd 18fed am 8.30p.m. Bydd criw cwrs Dyffryn yno i gyd, gyda Mair Robbins, John Albert, Wil, Randal, Greville a Max — digon o hwyl a sbri i bawb, gyda adloniant, canu a dawnsio gwerin. Dim ond 25c yw pris tocyn — ac mae'r elw i gyd yn mynd i Eisteddfod yr Urdd, Y Barri a'r Fro. Felly peidiwch â cholli'r noson wych yma!*

### LLYFRAU LLIWGAR

*Efallai fod rhai ohonoch wedi gweld cyfres newydd sbon o lyfrau Gwasg y Dref Wen yn Siop y Triban. Mae'r llyfrau hyn mewn Cymraeg syml a maen nhw'n bert dros ben, gyda lluniau hyfryd gan yr arlunydd enwog Richard Scarry. Mae Gwasg y Dref Wen wedi gwneud gwaith da iawn ers blynyddoedd nawr gyda'i llyfrau lliwgar i blant, ac efallai eich bod chi wedi prynu rhai o'r llyfrau newydd hyn i'ch plant yn barod. Ond peidiwch â meddwl mai dim ond i'r plant maen nhw: mae'r llyfrau yma'n wych hefyd ar gyfer dysgwyr sy eisiau dechrau darllen Cymraeg syml. Mae chwech llyfr yn y gyfres:* **Yn y Tŷ; Bore tan Nos; Ar y Fferm; Yn y Gwaith; Gyda'r Anifeiliaid** *a* **Gwyliau** *— a dim ond 45c yr un yw'r pris! Bargen y flwyddyn, mae'n siwr.*

### ENWOGION CYMRU

*Mae cyfres newydd yn dechrau ar y dudalen yma, o'r enw ENWOGION CYMRU. Mae'n rhoi hanes rhai o bobl enwog Cymru ac mae'r darnau wedi eu hysgrifennu'n arbennig ar gyfer dysgwyr. Gobeithio gwnewch chi ysgrifennu i mewn i ddweud beth rydych chi'n feddwl o'r darnau — a dweud pa bobl enwog hoffech chi ddarllen amdanyn nhw yn y misoedd nesaf. Danfonwch at John Albert yn 6 Ridgeway, Llysfaen neu at y Golygydd.*

### POB HWYL I JOHN

*Mae John Albert wrthi'n symud tŷ yr wythnos yma — felly rwy'n ysgrifennu yn ei le. Pob hwyl iddo fe a Tegwen a'r plant yn eu cartref newydd.*

*FFRIND I JOHN ALBERT*

**GEIRFA**

*cyhoeddiadau* — **publications**
*cyhoeddi* — **to publish**
*cylchgrawn* — **periodical**
*addas* — **suitable, apt**
*gwobr* — **prize**
*awgrym* — **suggestion**
*adloniant* — **entertainment**
*arlunydd* — **artist**
*cyfres* — **series**
*enwog* — **famous**

ENWOGION CYMRU

## 1. Owain Glyndŵr

**Fel rhyfelwr mae llawer yn meddwl am Owain Glyndwr, y Cymro enwog. Ond roedd e hefyd yn Arglwydd Sycharth, yn ŵr gwâr a deallus, a noddwr beirdd. Ei elyn mawr, wrth gwrs, oedd yr Iarll Reginald Grey o Ruthun yn Sir Ddinbych. Tua chanol haf 1400, roedd ffair fawr yn Rhuthun, ac fe ymosododd Owain a'i filwyr ar yr Iarll Grey a'i ddynion a gwneud drwg iddyn nhw. Brwydr bersonol oedd hon i ddechrau, ond cyn bo hir, fe welodd y Cymry fod ganddyn nhw arweinydd dewr i'w harwain yn erbyn y Saeson.**

### RHYFEL YNG NGHYMRU

Nid person cyffredin oedd Owain — ar ochr ei dad roedd e'n perthyn i dywysogion Powys, ac ar ochr ei fam roedd e'n perthyn i dywysogion y Deheubarth.


Yn fuan ar ôl 1400 fe aeth y cweryl rhwng Owain a'r Iarll yn rhyfel trwy Gymru gyfan. Roedd y wlad yn dlawd, roedd diweithdra mawr, ac roedd y Cymry yn barod i godi — yn enwedig pan welson nhw fod ganddyn nhw ddyn fel Owain Glyndwr i'w harwain. O dan ei faner e, roedd pawb yn fodlon ymladd — roedd gweithwyr yn fodlon gadael eu gwaith, a myfyrwyr yn dod adre o Rydychen a Chaergrawnt hyd yn oed, ac roedd gwŷr mawr yr Eglwys o'i blaid e.

### ENNILL — A CHOLLI

Fe syrthiodd castell ar ôl castell o flaen byddin Owain, ac yn fuan iawn, roedd Cymru'n un, ac Owain yn rheoli'r wlad i gyd, ac fe alwodd e Senedd ym Machynlleth. Fe anfonodd e lysgenhadon i wledydd eraill Ewrob, ac fe anfonodd Brenin Ffrainc fyddin i'w helpu fe.

Ond er hyn i gyd, yn 1408, fe ddaeth tro ar fyd, a chollodd frwydr ar ôl brwydr yn erbyn brenin newydd Lloegr, Harri V. Ond roedd e wedi dangos fod Cymru yn gallu sefyll, ac yn gallu bod yn gadarn.

Does neb yn gwybod yn iawn sut y buodd e farw, ac efallai nad oes digon o Gymry yn gwybod sut fuodd e fyw, chwaith.



*Senedd-dy Glyndŵr, Machynlleth.*

### CHWILO AM LYS OWAIN

Y flwyddyn diwetha, fe fues i'n chwilio am Sycharth — yno roedd llys Owain Glyndwr. Roedd rhaid chwilio'n galed a holi llawer, achos does dim un arwydd yn dangos y ffordd. Ond o'r diwedd, fe weles i'r mwnt lle roedd y llys yn sefyll, ac roedd hi'n werth yr holl chwilio — dim ond mwyn cael sefyll ar yr union fan y buodd Owain ei hun yn sefyll arno.

Os byddwch chi'n agos i Greosowallt, dyma'r ffordd i fynd yno. Ewch ar y ffordd tua Llanrhaeadr ym Mochnant am rhyw ddeg milltir, ac ar ôl cyrraedd tafarn o'r enw 'Green Inn', rhaid i chi droi i'r dde a dilyn y ffordd am rhyw dair milltir. Ar ôl hynny, fe fydd yn rhaid i chithau holi, fel finnau. Ond efallai bydd rhywun wedi rhoi arwydd yno cyn hynny - mae'n hen bryd, rywun wneud!

MALDWYN JONES

Geirfa a Nodiadau (Vocabulary and Notes)

rhyfelwr — warrior
arglwydd — lord
Sycharth — the court of Owain Glyndwr
gwâr — civilized
deallus — intelligent
noddwr — patron
beirdd — poets (sing. bardd)
gelyn — enemy
Iarll — earl
tywysog — prince (pl. tywysogion)
Powys a Deheubarth — the old Welsh kingdoms, mid and south Wales resrectively
diweithdra — unemployment
Rhydychen — Oxford
Caergrawnt — Cambridge
llysgennad — ambassador (pl. llysgenhadon)
tro ar fyd — a change or reversal
llys — court
mwnt — hillock
Croesoswallt — Oswestry
hen bryd — high time

# Dail y Gwanwyn yn blaguro eto

**Gyda chyfeiriad at yr erthygl 'Blodau o Hen Ardd' yn *Y Dinesydd*, Medi 1976, gallaf ddweud y cyhoeddwyd cyfrol arall gan fechgyn Ysgol Lewis Pengam wedi hynny. Cyhoeddwyd 'Dail y Gwanwyn' dan olygyddiaeth T. Mathews ym 1916, ac fe'i hargraffwyd gan Welsh Outlook Press, Caerdydd. Cyflwynwyd y gyfrol i J.D. Thomas Ysw., Y.H. Bronhaul, Maes y Cymmer, Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol.**

Eglurir pam y cyhoeddir y gyfrol yn y rhagair:

"Ar ôl peth pryder penderfynwyd ar gyhoeddi'r straeon a'r farddoniaeth a ganlyn a hynny yn unig am y rheswm y dymunwn wneuthur rhywbeth er cynorthwyo'r Ysbyty Cymreig gan y bwriadwn roi'r elw oll i'r gronfa hon."

Ysgrifennwyd a chasglwyd y cynnwys bron i gyd rhwng 1913-1916, ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol neu fel rhan o waith arferol y bechgyn. Amcan y gwaith oedd creu diddordeb ac ymarfer y dychymyg. Cafwyd caniatad golygyddion 'Cymru', 'Cymru'r Plant' a'r 'Drysorfa' i gyhoeddi darnau a gyhoeddwyd ganddynt. Ni sonnir yr un gair am gyfrol 1912!

Mae yn y gyfrol hon hefyd straeon am Dylwyth Teg yr ardaloedd cyfagos: Gelligaer, Bargoed, Bedlinog a Fochriw. Cododd Iolo James "Cyfarfod Gweddi Glyn Bargoed" o lawysgrif gan Iolo Morgannwg! Fel yn y gyfrol flaenorol, cyhoeddir yn hon hefyd hwiangerddi, caneuon gwerin a phenillion. Ceir ynddi bedwar casgliad bychan o hwiangerddi. Ceir rhai Rhymni:

RHWYSTR

*Mi fynna hoc o dderi*
*A wirs o Aberhonddu*
*Mi dodan i'r hen hwch*
*Na fyt o ffrwyth y gerddi.*

Daw rhai o Ystrad Mynach:

Y GOSP

*Blewyn glas ar ddolau Rhymni*
*Dynodd lawer buwch i foddi —*
*Merch fach lan a'm tynnodd innau*
*Lawer noswaith dros fy 'sgidiau.*

Paham y ceir casgliad o Hwiangerddi Nantlle yn y gyfrol? Mae'n siwr fod hon o ddiddordeb i'r Stiniogwyr sy'n y cylch y dyddiau hyn:

MERCHED FFESTINIOG

*Do, fe brynais gyllell ddima,*
*I dorri ffenestr yn yr Wyddfa;*
*I gael gweled Blaenau Stiniog*
*Lle mae merched — saith am geiniog.*

Mae'r casgliad o 'Hwiangerddi Môn' gan Huw Williams yn cyfoethogi'r gyfrol ddiddorol hon!

Cyhoeddir hefyd "Cân y Relwe Newydd" ac meddai Elis Ieuan Salmon amdani:

"Canwyd y gân hon pan ddaeth y rheilffordd i lawr i Sir Benfro, gan Lefi Gibbwn. Canai hi yn y ffeiriau i "Gân y Mochyn Du".

Yn y stori "Cosp Lleidr" ceir L.H. Jones yn son am Dafydd Grwcca yn ymweld â thafarn ar y mynydd rhwng Fochriw a Bedlinog. Ond ni chafodd fawr o groeso ynddi a rhaid oedd iddo fynd ar ei daith i Lanilltud Fawr dan lach y tafarnwr. Y noson ddilynol cysgodd mewn ogof, a rhywbryd yn y nos dihunwyd ef gan sŵn canu. Y Tylwyth Teg oedd wrthi yn canu "Daw Dydd Llun yn hyfryd-lon". O dipyn i beth aeth yn gystadleuaeth canu rhyngddynt a Dafydd. Canodd Dafydd "Y mae chwech o ddyddiau'r wythnos" i blesio'r Tylwyth Teg a chafodd ei ffafr. Ond nid dyna oedd ffawd y tafarnwr a ymwelodd â'r ogof ei hun wedi i Dafydd alw yn y dafarn ar ei ffordd yn ôl. Wedi i'r dynion bach ei annog, fe ganodd "Dydd Sul yw'r dydd i mi". A chan nad yw'r Tylwyth Teg yn hoffi'r Sul, fe aeth hi'n draed moch arno!

Mae'r gyfrol hon, fel un 1912, yn agor llygaid dyn i weld fod Cwm Rhymni lawn mor gyfoethog ei lên gwerin ag unrhyw ardal arall yng Nghymru. Mae cyfrol Tegwyn Jones, 'Tribannau Morgannwg' a gyhoeddwyd eleni yn ychwanegu at waith bechgyn Ysgol Lewis Pengam ddechrau'r ganrif, ac yn wahoddiad agored i rywun i gasglu at ei gilydd holl hwiangerddi, caneuon gwerin, penillion a thribannau Cwm Rhymni yn un gyfrol gynhwysfawr.

DAFYDD ISLWYN

## NEWYDDION CWM RHYMNI

### I'R IFANC

Trist iawn oedd clywed y newyddion drwg am y 'pydredd sych' yng Nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy ac am gostau uchel yr atgyweirio angenrheidiol. Mae nifer o drigolion Cwm Rhymni wedi elwa ar gyfleusterau'r ganolfan,— boed mewn dosbarth nos neu yn un o gyfarfodydd yr Urdd — ac mae'n siwr y bydd cefnogaeth ymarferol frwd i apêl y pwyllgor rheoli am gymorth ariannol o'r ardal hon.

Ar yr un pryd, wrth gwrs, mae nifer o achosion lleol yn hawlio'n sylw hefyd. Nid y lleiaf ohonynt yw ymdrech Aelwyd Caerffili i wella'r cyfleusterau yn festri a neuadd Tonyfelin. Mae'r Gronfa Adeiladau eisoes wedi pasio dau ganpunt ac mae system newydd o oleuadau wedi'i gosod yn y neuadd. Mae aelodau'r Uwch-Adran, dan gyfarwyddyd y Parchedig Densil John, yn brysur yn paratoi ar gyfer sesiwn o dawelwch noddedig — camp go fawr o sylwi fod trigain o blant yn mhob cyfarfod, a 'run ohonynt yn fud! Bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Eisteddfod y Barri (achos teilwng arall!) a'r Gronfa Adeiladau. Mae'r Aelwyd yn gobeithio casglu cyfanswm o dros bum can punt a bydd bydd y Trysorydd, H.P. Richards, Parcylan, Ffordd y Mynydd, Caerffili yn falch iawn o dderbyn unrhyw gyfraniad, boed fach neu fawr.

Gan barhau ym myd pobl ifanc, sefydlwyd cymdeithas ar gyfer rhai yn eu harddegau yng nghapel Bethel, Caerffili. Mae'r aelodau yn cyfarfod pob nos Iau yn festri'r capel i fwynhau tenis bwrdd, darts ac yn y blaen a maent yn edrych ymlaen at fwynhau rhaglen ddiddorol ac amrywiol dros y gaeaf.

### I'R SHERMAN

Bu nifer o drigolion y Cwm yn ymweld â Theatr Sherman i weld perfformiad Cwmni Theatr Cymru o ddrama Ugo Betti, 'Ynys y Geifr'. Trefnwyd bws i gychwyn o Fargoed ac i godi pobl ar y ffordd drwy Caerffili. Bwriedir trefnu rhagor o deithiau cyffelyb yn y dyfodol — y nesaf i weld 'Dau werth Chwech' ar nos Sadwrn, Tachwedd 20 — a gwahoddir y sawl sydd â diddordeb i gysylltu â Dafydd Islwyn ym Margoed neu Bryn Jones yng Nghaerffili.

### I'R MERCHED

Mrs Marged Jones (mam Eiry Palfrey), Cyn-Lywydd Merched y Wawr oedd yn annerch cangen Caerffili o'r mudiad yn ddiweddar. Seiliwyd ei sgwrs ar nifer o hen bethau ym meddiant ei theulu oedd o ddiddordeb anghyffredin megis, er enghraifft, clogyn o eiddo un o Indiaid y Wladfa. Bydd y cyfarfod nesaf a gynhelir ar nos Iau, Tachwedd 18, yng Nghanolfan y Twyn am hanner wedi saith o naws gyffelyb oherwydd gwahoddir aelodau'r gangen i sôn am rywbeth yn eu cartrefi sydd o ddiddordeb ac arwyddocad arbennig iddynt.

### I'R YSGOL

Un o ganlyniadau'r llifogydd diweddar yw y bydd Cymdeithas Gymraeg Caerffili yn gallu cynnal ei chyfarfodydd yn neuadd Ysgol Gymraeg Caerffili ac yno ar nos Wener, Tachwedd 12, y bydd yr aelodau yn mwynhau noson lawen yng nghwmni llond bws o Gymmrodorion Dowlais. Dechreuir am chwarter wedi saith.

# Pwy yw'r rhain?



*Dyma ddarlun hanesyddol arall - o ddisgyblion cyntaf yr Ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd. Tynnwyd y llun hwn ar Fai'r 25 ain, 1950. Tybed faint o'r plant hyn ydych chi'n eu hadnabod? Mae nifer ohonynt yn dal i fyw yng Nghaerdydd, â phlant yn yr ysgol eu hunain erbyn hyn. Danfonwch air at y Golygydd os medrwch enwi rhai ohonynt. Diolch i Arfon Price am ddanfon y llun atom.*

cleglen cyf
bd TELIFFÔN CAERDYDD 28917
argraffwyr

## Cystadleuaeth i Glybiau

Mae'r Cyngor Llyfrau Cymraeg yn cynnal cystadleuaeth newydd y gaeaf yma ar gyfer aelodau clybiau ieuenctid, aelwydydd, clybiau ffermwyr ifanc ac ati. Y dasg fydd CYFLWYNO RHAGLEN AR UNRYW LENOR O'CH SIR — drwy gymorth sleidiau, tapiau neu gyfrwng arall.

Caniateir 3-6 aelod ym mhob tîm, ond bydd hawl gan aelodau eraill o'r clwb i gynorthwyo gyda'r gwaith paratoi, ynghyd â'r ochr dechnegol i'r gwaith. Gobeithir cynnal y cystadleuthau rhanbarthol ddechrau mis Rhagfyr ac yna, gwahoddir y buddugwyr ymlaen i'r rownd derfynol a gynhelir yn Aberystwyth ddechrau Chwefror. Am fanylion pellach, cysyllter â Threfnydd y Cwisiau, Y Cyngor Llyfrau Cymraeg, Sgwâr y Frenhines, Aberystwyth.

# CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS

### DIOLCHGARWCH

Nos Lun, Hydref 4ydd, cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y Gymdeithas pan ddaeth nifer lluosog o aelodau ynghyd i ddathlu Gŵyl Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf. Roedd hen eglwys Sant Andreas Fawr dan ei sang, a'r nenfwd yn atseinio i eiriau a cherddoriaeth hyfryd rhai o hoff emynau Cymraeg y Cynhaeaf. Trefnwyd yr oedfa fendithiol gan y Rheithor, y Parch J. Lloyd Richards, M.A., B.D. ac fe gafwyd eitemau ardderchog gan blant a phobl ifanc y Gymdeithas, a darlleniadau o'r Ysgrythur gan yr oedolion.

Ar ôl y gwasanaeth, cafwyd swper hyfryd a chroesawyd yr holl aelodau, yn rhai hen a rhai newydd, gan y Gadeiryddes, Mrs Olwena Hopwood, B.A.

### DYMUNIADAU GORAU

Dymunwyd yn dda i Mr Arthur Davies wrth iddo gychwyn gyrfa fel myfyriwr yng ngholeg y Brifysgol, Llanbed ar ôl ymddeol o'i waith gyda Swyddfa'r Post ar ôl dros ddeugain mlynedd o wasanaeth. Llawenydd i bawb oedd clywed am enedigaeth merch fach, Mari Wyn, i Peter ac Elinor Elias Jones, chwaer i Elen; a hefyd am enedigaeth mab bychan i Gillian a Gethin Lewis, brawd i Aled.

### TRISTWCH

O fyd y llawenydd at ofid a thristwch — roedd pawb yn flin i glywed am farwolaeth Mrs Maddison, y Twyncyn — un o aelodau gwreiddiol y Gymdeithas ac un a oedd yn barod ei chymwynas bob amser.

### BARBECIW'N DWYN FFRWYTH

Pleser oedd cyhoeddi fod y Barbeciw Haf a gynhaliwyd yn y Tŷ Gwyn, cartref Mr a Mrs Jimmy James wedi bod yn llwyddiannus iawn. Fel canlyniad, trosglwyddwyd siec sylweddol i Gronfa Eisteddfod yr Urdd, Y Barri a'r Fro — a chafwyd cyfraniad hefyd i goffrau gwag y Gymdeithas.

### YMUNWCH Â NI

Croeso i Gymry'r cylch ac unrhyw Gymro arall sydd am ymuno â'r Gymdeithas. Os am fanylion, ymofynner a'n hysgrifennydd diwyd, Mr Alun Daniel Ll.B., 4 Erw'r Delyn Close, Sully Road, Penarth.

BBC CYMRU WALES

FIS IONAWR NESAF fe fydd

**Dau Wasanaeth Radio i Gymru**

sef

RADIO CYMRU AR VHF yn unig

RADIO WALES

ar y Donfedd Ganol

Bryd hynny, cewch fwynhau rhaglenni Cymraeg boreol Radio Cymru (ar VHF yn unig) neu raglenni Saesneg boreol Radio Wales (ar y Donfedd Ganol).

P'run ddewiswch chi?
Hywel Gwynfryn neu Vincent Kane?
Radio Cymru neu Radio Wales?
VHF neu'r Donfedd Ganol?

yn gyntaf oll —

DEWISWCH SET SY'N RHOI'R DEWIS
(Cewch fwynhau holl raglenni radio'r BBC)

Holwch eich gwerthwr radio nawr

# Croeso i Gymdeithas y Cymrodorion

**Eleni eto, yn ôl ein harfer, noddwyd dysgwyr Cymraeg gennym i fynd i'r Eisteddfod yn Aberteifi. Dwy ferch o Ysgol Canton a gafodd y fraint hon, a bu'r ymweliad â'r Wyl o fudd amhrisiadwy iddynt, yn ôl y dystiolaeth a gawsom ganddynt, mewn Cymraeg gloyw, yn ein cyfarfod agoriadol.**

Yn ystod yr Haf, buom ar daith ar drywydd Clawdd Offa, a cherdded ar yr hen adfeilion yn yr haul tesog, braf. Yr ydym yn ddyledus iawn i Mr Ifor Rees am drefnu inni wibdaith mor hapus am y bedwaredd flwyddyn.

Cawsom daith hefyd i'r Eisteddfod ar ddydd Iau'r Cadeirio, a phrofi'r awyrgylch am ychydig oriau, gan fwynhau golygfeydd gwych Dyfed ar y ffordd.

Mae rhaglen ddiddorol wedi ei pharatoi ar gyfer y tymor hwn o dan lywyddiaeth Parch. Luther Mosely:
TACHWEDD 5: "Trefn y Llys", sgwrs gan y Barnwr Hywel ap Robert. Festri Minny St.
RHAGFYR 3: Cyngerdd gan Barti'r Wenallt, yn y Tabernacl.
IONAWR 7: "Bagad Gofalon Bugail" gan y Parch Emlyn G. Jenkins. Festri Ebeneser.
CHWEFROR 4: Noson gerddorol a chymdeithasol o dan ofal Mr Arwel Hughes. Festri'r Tabernacl.
CHWEFROR 25: Cinio Dathlu Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r Parc. Prif Westai: Mr Llewelyn Price, y Fridfa Blanhigion, Aberystwyth.
MAWRTH 11: "Noson Hen Drysorau" o dan ofal Mr John Bevan.
MAI 14: Gwibdaith; y manylion i'w cael yn nes ymlaen.
MAI 20: Y Cwrdd Blynyddol yn festri Minny Street.

Mae croeso i bawb i ymuno â'r Gymdeithas i fwynhau nosweithiau o amrywiaeth diddorol. Cewch gyfle hefyd i brofi'r cynhesrwydd o gymdeithasu â Chymry ffyddlon y brifddinas.

# TAITH I HAMBURG

**Treulio wythnos yn Hamburg — a phythefnos i fwrw blino! Dyna oedd hanes Côr Ieuenctid Aelwyd Caerdydd ar eu taith i'r Almaen ddiwedd mis Hydref. Trefniant ar y cyd gyda Cherddorfa Ieuenctid Hamburg oedd y daith: treuliodd y Gerddorfa wythnos yng Nghaerdydd ddechrau Hydref, ac aeth y Côr yn ei dro i'r Almaen, a chael croeso dinesig yno.**

Trefnwyd pum cyngerdd i gyd, dwy i'r cyhoedd gyda'r nos, a thair arall mewn ysgolion yn y ddinas. Detholiad o ganeuon gwerin Cymraeg oedd y rhan fwyaf o raglen y Côr, dan arweiniad Gareth Glynne Davies, a rhoddwyd eitemau unigol gan Einir ac Eirian Davies, Delyth Thomas, Eleri Cwyfan ac Elin Edwards. Rhaid peidio ag anghofio son am y grŵp pop newydd, anhygoed, "Canister" chwaith!

Enillodd aelodau'r Côr lawer o brofiad ar y daith hon — hwyrach gwell peidio â son am rai o'r profiadau! Ond mae un peth yn sicr: fe glywch chi fwy am Gôr Ieuenctid Aelwyd Caerdydd yn y dyfodol. Eisoes, fe drefnwyd Cyngerdd yn y Sherman ar Nos Sul, Ionawr 9fed. Cofiwch ddod draw — chewch chi ddim o'ch siomi.

I ap D

# A Wyt Ti'n Cystadlu?

**Cynhelir yr Eisteddfod Ryng-golegol yn Aberystwyth yn Chwefror 1977. Bydd cystadleuthau mewn meysydd armrywiol gan gynnwys: RHYDDIAITH, BARDDONIAETH, TRAETHODAU, LLENYDDIAETH SAESNEG, ADRODDIADAU CYMRAEG A SAESNEG, CERDD DANT, DAWNSIO GWERIN, DRAMA, CERDDORIAETH, CELF A CHREFFT.**

Dosberthir copiau o raglen yr Eisteddfod cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn rhoi digon o gyfle i fyfyrwyr ganolbwyntio ar eu hymgeisiadau dros wyliau'r Nadolig.

Dylech gofio fod yr Eisteddfod yn agored i *bob* myfyriwr a gofrestrwyd eleni yn y colegau canlynol:

Coleg y Brifysgol, Yr Athrofa, y Coleg Cerdd a Drama, Cyncoed, Coleg Technegol Llandaf, Politechneg Cymru (Y Barri a Threfforest) a Chaerleon. Fe fydd maint ein llwyddiant yn dibynnu ar gefnogaeth myfyrwyr y colegau hyn.

Os oes arnoch eisiau gwybodaeth bellach, cysylltwch â Martin Huws, Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Ewch ati i gystadlu eich hun — peidiwch â gadael i rywun arall gario'r baich!

# Pob hwyl Meinir

**Mae'n siwr y bydd darllenwyr *Y Dinesydd* i gyd yn ymuno â ni i ddymuno'n dda i Meinir Lewis, merch Eirion ac Avril Lewis, Derwen Rd., Cyncoed. Mae Meinir wedi bod yn wael yn Ysbyty'r Waun ers peth amser, a phleser o'r mwyaf oedd clywed ei bod hi'n gwella'n dda erbyn hyn, a bod disgwyl y caiff adael yr ysbyty cyn hir. Brysied adre, a boed iddi wellhad buan a llwyr.**


Plaid Cymru

FFAIR NADOLIG
2.00p.m. Sadwrn
20 Tachwedd
NEUADD Y DDINAS
CAERDYDD
Agorir gan
Cyng. H.P. Richards
Caerffili


# Cymdeithas Lenyddol Fywiog

Mae'n siwr y bydd y gwreichion yn tasgu yng nghyfarfod nesaf y Gymdeithas Lenyddol pan fydd Dr Ceinwen Thomas a Mr Illtyd Lewis AEM yn trafod y pwnc llosg, CYMRAEG BYW. Dewch yno'n llu, yn gefnogwyr a gwrthwynebwyr, i fwynhau trafodaeth FYWiog — mae croeso i bawb. Cynhelir y cyfarfod nos Fercher, Rhagfyr 8fed am 7.30p.m. yn ORIEL, 53 Heol Siarl.


GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

*(Perchennog J.M. CROOKES)*


Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)

CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWCH
YNG NGHYMRU




CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD
DANFONWCH HEDDIW AT
Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd

Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

# ARDDANGOSFA GOFFA GWEN JOHN

Mae'r darlun gyferbyn, *Girl in Profile* gan Gwen John yn un o ryw 150 o luniau mewn arddangosfa gynhwysfawr yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Gan yr Amgueddfa y mae'r casgliad mwyaf o luniau Gwen John erbyn hyn, a phriodol felly cynnal yr arddangosfa hon i ddathlu canmlwyddiant geni'r arlunydd yn oriel yr Amgueddfa. (I'w gweld hyd Ionawr 2il.)



## MEINI'R ORSEDD

*Fe gofiwch chi gwestiwn Siân yng Ngholofn y Sbectol y mis diwethaf, sef ble mae meini gorsedd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, 1960 erbyn hyn? Yr ateb byr yw yn y llaid — rhywle yng ngwely Afon Taf! Fe'u taflwyd i'r afon ar ôl 'Steddfod 1960 (neb yn disgwyl y byddai eu hangen eto!) a dyna lle maen nhw byth! Mae'n gwestiwn erbyn hyn na fyddai hi'n rhatach cloddio meini newydd o chwarel na cheisio codi'r rhain o'r afon a'u glanhau. Ymddengys fod llawer i'w ddweud dros rywbeth a awgrymwyd wrth yr Eisteddfod beth amser yn ôl, sef cael meini hwylus wedi eu gwneud o bolisteirin. Hawd eu glanhau, a hawdd eu symud o le i le......*

# COLOFN Y MUDIAD MEITHRIN

**Mae'n rhyfedd pa mor sydyn y daw hi'n bryd i mi roi pin ar bapur i gadw gweithgareddau'r Mudiad o flaen llygaid darllenwyr y *Dinesydd*. Anodd credu bod mis wedi mynd heibio. Caf f'atgoffa o'r ddihareb od honno, "Nid amser a hed ond dyn a â."**

Wel, mae tren y Mudiad wedi bod i Lundain — a dyna ddiwrnod oedd hwnnw! Dim ots i ba siop yr awn, fe glywn Gymraeg — o Marks & Spencer Marble Arch i Harrods. Doniol oedd sylwi arnom yn heidio o'r tren ac am y gorau yn bachu tacsi. Fe gafodd gweithwyr brwd Eisteddfod yr Urdd yn y Barri'r syniad ardderchog o werthu bagiau plastig yn blastar o fathodynnau'r Urdd ar y tren wrth fynd i fyny. Gellid 'nabod pobol y Mudiad wrth y bagiau plastig llwythog o gwmpas Oxford St! Cafwyd diwrnod heulog braf ond rhaid cyfaddef, er i mi fod mewn tacsi deirgwaith, i'm traed fod yn sgaldian erbyn diwedd y dydd. Braf oedd eistedd a mwynhau "stecan" yn Regent Street cyn dal y tren — a'm cael fy hun yn eistedd ar y bwrdd nesa i Faer Pwllheli! Dyna brofi nad wiw fyddai ceisio gwneud unrhyw beth ar y slei! Trist gorfod ychwanegu i dros ugain golli'r tren yn ôl — ac i golli'r tren gostio'n ddrud iddyn nhw.

Wel, dyna ddigon o wamalu. Mae'n dda gen i gyhoeddi y bydd cylch newydd Pentwyn wedi agor erbyn y daw'r rhifyn yma o'r *Dinesydd* allan. Fe'i hagorir ar y 1af o Dachwedd a gobeithir agor Cylch Mam a'i Phlentyn yno hefyd rhag blaen. Os gŵyr rhai o ddarllenwyr *Y Dinesydd* am unrywun allai fod â diddordeb mewn anfon ei blentyn i'r cylch yma — rhowch wybod iddynt. Teimlaf fy mod yn pregethu wrth y rhai iach yn y ffydd yn y golofn yma — cael gafael ar y rhai tu allan i'r Cylch Cymraeg sy'n gamp.

Mae Cylch Pentwyn yn torri tir newydd hollol yn hanes y Mudiad. Cynhelir y Cylch yng Nghanolfan Gymdeithasol Pentwyn. Y bwriad a'r gobaith yw creu bywyd cymdeithasol ar y stâd enfawr yma a ddaw â phobl ar ei gilydd o dan yr un ambarel, yn Gymry Gymraeg a di-Gymraeg. Felly un pwyllgor fydd i'r Cylchoedd Saesneg a Chymraeg, un set o offer i'w rannu rhwng pawb, ac yn y blaen. Wrth gwrs, bydd raid i'r Cylch Cymraeg gael pethau ychwanegol fel llyfrau Cymraeg a bydd raid i'r gangen Gymraeg fel tae, godi arian i ddibenion felly ei hun. Rhwydd hynt a phob lwc i Mrs Ann Williams fydd yn gyfrifol am Gylch Pentwyn.

Manteisiaf ar y cyfle i roi dipyn o gyhoeddusrwydd i Gylch Llandaf. Cynhelir Ffair gan y Cylch yn festri Capel Severn Road am ddau o'r gloch ar y 27ain o Dachwedd. Bydd yno ddigon o bethau addas fel anrhegion Nadolig gan gynnwys stondin o waith llaw deniadol. Dowch yno'n llu!

Tybed ai Cylch y Waun yw'r Cylch Cymraeg hyna yng Nghymru? Byddai'n ddiddorol gwybod — achos eleni mae Cylch y Waun yn bump ar hugain oed. Cyfarchion arbennig iddyn nhw! Beth am alw heibio i'w Bore Coffi yn yr ysgol fore Mercher y 17eg o Dachwedd — unrhyw bryd o ddeg i ddeuddeg o'r gloch. Arbrawf diddorol gan y Waun yw gwahodd cylchoedd eraill atynt am fore — eisoes y mae Heol y Crwys a Sblot wedi bod draw yno.

Rhyw fis blêr fu Hydref i mi rywsut. Fel y gwyddoch, daeth cerddorfa o Hamburg yma am wythnos ac fe gawsom gwmni pedair ohonynt yn ein tŷ ni, ac fe olygodd dipyn o sgrealu. Hwyrach i waith y Mudiad ddiodde tipyn, ond dyna fo, mae llawer i "Frau" wedi gorfod sgrealu yn yr Almaen i roi croeso i Gôr Aelwyd Caerdydd. O gofio hynny, nid ofer ein sgrealu yng Nghaerdydd.

Problem cylchoedd De Morgannwg yw bod y rhan fwyaf o'r plant yn ddi-Gymraeg. I geisio rhoi help llaw a chanllawiau i'r athrawon bydd Mrs Mair Robbins yn rhoi darlith ar gyflwyno ail iaith i blant oed Meithrin i athrawon Cylchoedd y sir ar y 30ain o Dachwedd am 7.30p.m. yn Ysgol Bryntaf.

Llanrhymni sydd ar fy meddwl wrth gynllunio'r gwaith i fis Tachwedd. Dim ond un teulu sy gen i yno a rheini'n ddysgwyr brwd a deheuig. Faint o obaith sydd 'na i gael teuluoedd o'r un anianawd â ni — wn i ddim! Byddaf yn pryderu'n amal beth yw fy mlaenoriaethau: braf iawn o ran fy malchder fy hun yw agor cylch newydd, ond ai teg annog Cymry di-Gymraeg i fynychu Cylch Meithrin heb ein bod yn gwbwl ffyddiog eu bod yn abal o ran cefndir a diddordeb i gychwyn ar lwybyr addysg ddwyieithog? Wn i ddim yn wir!

SHÂN EMLYN

# Diolchgarwch

**Pan ofynnwyd i mi siarad ar ddiolchgarwch, y peth cyntaf a ddaeth i'm meddwl oedd sychder haf hirfelyn tesog eleni. Nid oes rhaid gofyn i bobl yr India bell am ganlyniadau prinder dŵr — mae'n rhan o'u bywyd beunyddiol, ac maent wedi dygymod â'r ffordd hyn o fyw. Dyma'r tro cyntaf mewn cof i ni wynebu'r fath argyfwng yn y wlad hon.**

Y mae yna wers i ni yn fan hyn, sef gwneud i bobl ystyried y pethau a gymerir yn ganiataol ganddynt. Nid dim ond y byd amaethyddol sydd wedi dioddef yn y sychder, ond y byd diwydiannol hefyd, heb son am y gymdeithas yn ei bywyd cartref. Mae sefyllfa haf eleni yn dwyn i gof pawb ohonom, rwy'n siwr, stori Joseff gynt yn yr Aifft. Lwyddodd ef, heb y manteision technegol presennol i ddarparu cnydau a bwyd ar gyfer y blynyddoedd tenau. Ac y mae Duw eto yn ei bryd wedi rhoi cyflenwad hael o ddŵr glaw i sicrhau na fyddwn yn dioddef y gaeaf hyn. Eisoes, mae rhai pobl anniolchgar a difeddwl yn achwyn ar y cyflenwadau anferth o ddŵr sydd wedi eu darparu ar ein cyfer.

Gadewch i ni feddwl am freintiau a graslonwydd ein bywyd dyddiol. Mae gennym le i ddiolch am ein cartrefi, ein rhieni a'n cyfeillion. Mae yna wledydd heddiw fel yr Eidal sydd wedi eu rhwygo gan ddaeargrynfeydd ac mae miloedd o blant a phobl heb gysur cartref a tho dros eu pennau oherwydd hyn. Mae yna wledydd fel De Affrica sydd yng nghrafangau ymrafael mewnol. Nid eiddo'r elfennau 'mo'r esiampl ddiwethaf, ond ewyllys drwg dynion a'u casineb yn treiddio trwy'r gwledydd.

Testun arall o ddiolchgarwch i ni fel disgyblion yw ein hysgol a'n system addysg. Rwy'n sicr bod pob un ohonom yn ein tro wedi achwyn a chwyno yn erbyn y gyfundrefn addysg yn yr ysgol. Gadewch i ni ddiolch am ein hysgol. Ond a ydych wedi sylweddoli pa mor ffodus yr ydym yn y wlad hon i gael cyfundrefn addysg o gwbl? Does gennym ond meddwl yn ôl at gyfnod ein cyn-deidiau, fel yr ymdrechasant i gael addysg elfennol i'w plant (heb son am addysg uwchradd a phrifysgol), a'u ceiniogau prin a aeth i ddechrau prifysgol. Gadewch i ni wneud yn fawr o'n breintiau yn y maes hwn a rhoi diolch amdanynt. Beth am y gwledydd llai datblygedig lle mae miliynau ar filiynau o blant ac oedolion yn methu darllen nac ysgrifennu o gwbl am nad oes cyfleusterau addas i'w dysgu? Petaem mewn cyflwr tebyg, hawdd fyddai gwerthfawrogi manteision dysg.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnal adeg y cynhaeaf, adeg draddodiadol am ddiolchgarwch led-led y byd. Mae'n rhaid cadw mewn cof nad diolchgarwch am gynhaeaf yn unig sy'n bwysig. Mae'n bwysig iawn bod cnydau'n llwyddo er mwyn darparu bwyd ar gyfer y gaeaf, ond mae pethau eraill pwysig iawn hefyd sy'n gofyn am ddiolchgarwch.

Gadewch i ni, fel cenedl y Cymry, fod yn falch ac yn wyliadwrus o'n hetifeddiaeth a rhoi diolch am harddwch Cymru, am ei heisteddfod a'i chymanfa, am ei chrefftau a'i chelfyddyd, am bob dawn sy'n gwneud Cymru'n annwyl gennym, am ogoniant y gorffennol a'r gobaith am y dyfodol. Ac i gofio geiriau Syr O.M. Edwards: "Ond y mae i Gymru ei henaid, ei henaid ei hun, a gall golli hwnnw...... A phe ddigwyddai'r trychineb hwnnw byddai Cymru heb enaid a'r byd yn dlotach."

Ac i derfynu, diolchwn i ti O Dduw am holl ogoniant y byd. Diolchwn i ti am y cenhadon sydd allan yn y gwledydd pell yn cyhoeddi'r newyddion da i'r miliynau sydd eto heb glywed dim amdanat.

DAVID BOOBIER
Ysgol Gyfun Rhydfelen.

(Anerchiad a draddodwyd gan David Boobier, aelod o'r Chweched Dosbarth yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar achlysur gwasanaeth diolchgarwch yr ysgol.)


CYRHAEDDWCH

78,500

O DDARLLENWYR

Ffôniwch i gael ein telerau hysbysebu

CAERDYDD 396262



TOPIC

Siop trin gwallt
10 Heol Westbourne
Yr Eglwys Newydd
(Whitchurch)

Ar agor yn hwyr Nos Wener
Pensiynwyr dydd Mawrth a Mercher

FFÔN : 618151



TREN NADOLIG I LUNDAIN

*4 RHAGFYR 1976*

Gadael Caerdydd — 07.45
Cyrraedd Paddington — 10.11
Gadael Paddington — 20.30
Cyrraedd Caerdydd — 22.50
Pris tocynnau:
Oedolion £3.75
Plant £2.75

*Tocynnau i'w cael mewn unrhyw Ganolfan Addysg Oedolion neu o'r Swyddfa Addysg, Kingsway. Rhif Teliffôn : 31033 x 460*


# NODION O'R EGLWYS NEWYDD

## CYMDEITHAS CYMRY'R EGLWYS NEWYDD

Cynhaliwyd noson agoriadol y gymdeithas hon ar nos Lun, Hydref 11eg gyda chriw bychan o ardal Godre'r Garth yn ein diddori. Roedd y criw wedi ei gasglu ynghyd gan Carey Williams o'r Efail Isaf a fu'n byw yn yr Eglwys Newydd ychydig flynyddoedd yn ôl. Gwyn Griffiths oedd arweinydd y noson a chafwyd eitemau cerddorol gan Llinos Jenkins (canu gwerin); Catrin Rowlands (clarinet); Huw T. Williams (baritôn) a Meima Morse yn plesio pawb gyda'i adroddiadau a storiau doniol. Bu Margaret Roberts yn brysur iawn yn cyfeilio i'r unawdwyr a'r clarinet. Noson wrth fodd pawb a'r 'paned o de a sgwrs yn ddiweddglo hyfryd i'r noson.

Mae 'na groeso mawr i unrhyw un a hoffai ymuno â ni. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Bethel ac rydym fel cymdeithas yn ddyledus iawn i swyddogion y capel hwn am roi benthyg y neuadd gyfforddus hon i ni ar gyfer bob cyfarfod. Am 7.30 y casglwn at ein gilydd ac edrychwn ymlaen at dymor diddorol a hwylus.

Dyma'r rhaglen o fis Rhagfyr ymlaen —

Rhagfyr 13: Noson ar gyfer y Nadolig dan ofal Mrs Meudwen Davies a phlant Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.

Ionawr 10: Dr Ben Thomas yn siarad ar "Pwerau Goruwch-Naturiol".

Chwefror 14: Noson yng nghwmni Shân Emlyn.

Mawrth 8: Cinio Gŵyl Ddewi: Prif westai: Mr Geraint Walters.

Os am unrhyw fanylion eraill cysylltwch ag un o'r swyddogion —

Cadeirydd: Mrs Valmai Evans.

Is-Gadeirydd: Mr John Ewart Jones.

Trysoryddes: Mrs Mair Edwards.

Ysgrifenyddes: Mrs Eileen Williams (Ffôn: Caerdydd 66894).

Cofiwch alw — bydd croeso cynnes i chi yn yr Eglwys Newydd.

## AT BOB COPA WALLTOG!

Chi, ferched a gwragedd sydd yn byw yng ngogledd Caerdydd — trowch i fewn i 'Topic' yn 10 Heol Westbourne, (troi yn Heol Don), Yr Eglwys Newydd er mwyn trin eich gwallt a chael sgwrsio yng Nghymraeg glân Shir Gar gyda Ann yr un pryd. Mae hi o Landybie ac yn falch o gael ymarfer ei Chymraeg gan fod ei gŵr yn methu siarad yr iaith. Mae bws 24 a 25 yn mynd â chi yn agos iawn yn Heol Don.

Anne yw enw'r perchennog hefyd ac mae hi yn dysgu Cymraeg ac yn deall llawer. Mae'r ddwy yn gweithio'n gyflym iawn felly ni fydd eisiau i chi fod allan o'r tŷ yn hir!

Rhowch gynnig arni. Mae 'Topic' ar agor yn hwyr nos Wener ac mae telerau rhad i bensiynwyr ar ddydd Mawrth a Mercher, Ffôn 618151.

Efallai y gwelaf chi yno!

VALMAI EVANS

# Sinema Deithiol i Gymru

**Nos Fercher 3 Tachwedd, 1976 rhoddwyd cychwyn ar fenter newydd o Sinema Deithiol Gymraeg. Trefniant ar y cyd rhwng y cyfarwydd-wr ffilmiau Wiliam Aaron ac Urdd Gobaith Cymru yw'r fenter hon. Wiliam Aaron fu'n gyfrifol am gyfarwyddo'r ffilm 'Dyma'r Urdd' a ryddhawyd ym mis Chwefror eleni.**

Mae gan y sinema deithiol ddwy sioe i'w gynnig. Mae'r gyntaf yn cynnwys tair ffilm gartwn ar gyfer plant. 'Ynys y Trysor' yw un o'r rhain sef cyfieithiad o gartwn Americanaidd. Mae'r ail sioe yn cynnwys tair ffilm a fydd yn apelio at draws-doriad o bob oedran sef 'Yr Afon', teyrnged Aelwyd Llandwrog i awdl gadeiriol Gerallt Lloyd Owen, 'Gwaed ar y Ser' gyda Hywel Gwynfryn, Dafydd Iwan, Telynores Dwyryd, Barry John ac Ifans y Tryc ac yn olaf Ffilm gan HTV Cymru ar gyngerdd olaf y grŵp pop Edward H. Dafis.

Cyhwynodd y daith yn Neuadd y Parc Cenedlaethol yn Nant Peris; fe ddewiswyd Nant Peris gan mai yno y ffilmiwyd 'Gwaed ar y Ser' prif ffilm yr ail sioe. Nant Peris hefyd yw cartref y cwmni sy'n trefnu'r daith mewn cydweithrediad â'r Urdd sef 'Ffilmiau'r Nant' cwmni a ffurfiwyd gan Wiliam Aaron i deithio a chynhyrchu ffilmiau.

"Rydym yn gobeithio teithio tan fis Mawrth" meddai Mr Aaron "yn ymweld â phump neu chwech o bentrefi gwahanol bob wythnos a dangos dwy sioe ymhob tref."

Disgwylir y bydd chwe mis o deithio yn costio tua £5,000. Cyflogir un person fel taflunyddwr set Philip ap Iorwerth o Fflint a buddsoddwyd eisoes mewn cyfarpar ac offer ar gyfer y daith.

Bydd y rhan fwyaf o'r trefniadau lleol yng ngofal canghennau'r Urdd ac er bydd y daithyn teithio gan fwyaf yn y Gogledd a'r Canolbarth bydd hefyd yn ymweld â'r De.

# Newyddion Da i Actorion

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cynnig nifer o ysgoloriaeth-au i actorion, technegwyr a gweinyddwyr o Gymry sydd am ddysgu Cymraeg; ffordd wych o sicrhau mwy o Gymry Cymraeg ym mhob maes yn y theatr yng Nghymru. Bwriedir i'r ysgoloriaethau dalu am y cyrsiau Cymraeg eu hunain ond o dan amgylchiadau eithriadol, dichon y rhoddir cymorth gyda chostau byw. Ceir y manylion llawn gan y Swyddog Drama, Cyngor Celfyddydau Cymru, Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd. Ffôn 394711.

**Coleg y Brifysgol Caerdydd**

Darlith Goffa G. J. Williams
"RHAI AGWEDDAU AR DDYSG Y GOGYNFEIRDD"
Mr. D. Myrddin Lloyd

Dydd Gwener
Tachwedd 12 1976
am 5.30 p.m.
Theatr Ddarlithio 2.1
Adeilad y Dynoliaethau
Coleg y Brifysgol

# Ar Silff y Llyfrgell

Daeth pentwr o lyfrau didd-orol i law oddi wrth y Cyngor Llyfrau, sef cyfrolau a fwriedir ar gyfer llyfr-gelloedd yn unig. Mae'r cynllun hwn wedi gwneud gwaith mawr dros y blynyddoedd, yn enwedig gyda chyfieithiadau o ieithoedd estron, i gyflenwi'r angen am ddeunydd darllen Cymraeg sy'n ddiddorol a darllenadwy heb fod yn rhy uchel ael — "a good read" ys dywed y Sais.

Cyfieithiadau o'r Saesneg yw dau o'r llyfrau hyn: *Ond Doeddwn i Ddim yn Lloerig*, nofel am broblemau merch ifanc ddibriod yn ceisio codi ei phlentyn tra bod y tad mewn ysbyty'r meddwl (gan yr awdur o Gaerdydd, Diana Gruffydd Williams, cyfieithad gan Mairwen Gwynn Jones), ac *O. Henry*, detholiad o ddwy ar hugain o straeon byrion gan y meistr Americanaidd, wedi'u trosi'n gelfydd iawn gan y diweddar J. Ellis Williams.

Dau gyfieithad o'r Ffrangeg wedyn: *Mebyd*, cyfieithad Rhainnon Davies o hanesyn deniadol y Llydawes Michelle Lorraine am fachgen bach yn mynd ar grwydr, a *Dial yn y Dwyrain*, nofel gyffrous Maurice Dekobra ac Anne Mariel am ysbiwyr a chynllwynwyr yn erbyn y Tsar yn Rwsia ddechrau'r ganrif hon; W.J. Jones (Aberconwy) biau'r trosiad.

Un gyfrol Gymraeg wreiddiol sydd yn y coflaid hwn sef *Meri Go Rownd a storïau eraill*, casgliad o straeon gan fyfyrwyr o Golegau Addysg Cyncoed ac Abertawe, wedi eu dethol a'u golygu gan ein W.J. Jones ni. Cyfrol ddiddorol, os braidd yn bruddglwyfus ar y cyfan; bobol bach, mae gan y myfyrwyr 'ma eu problemau!

Rhaid pwysleisio eto nad yw'r cyfrolau hyn ar werth i'r cyhoedd; argraffiadau i lyfrgelloedd yn unig ydynt. Fe fyddant ar silffoedd eich llyfrgell leol erbyn hyn, felly ewch yno, a benthycwch, da chi!

---

## THEATR YR YMYLON

Gresyn fod y cwmni theatr bywiog a gwreiddiol, Theatr yr Ymylon, yn gorfod rhoi'r gorau i berfformio am weddill y flwyddyn ariannol hon, oherwydd anhawsterau ariannol. Derbyniodd y cwmni gymhorthdal o ryw £43,000 oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 1976/77, ond gwariwyd yr arian yma i gyd yn ystod chwe mis cynta'r flwyddyn pan gyflwynodd y cwmno chwe chynhyrchiad gwahanol. Byddwn yn gweld eu heisiau ar lwyfannau Caerdydd, ac edrychwn ym-laen at eu gweld yn ail-ffurfio ym 1977.

## BARDDAS

Cyhoeddwyd cylchgrawn newydd diddorol dros ben y mis diwetha, un sy'n siwr o lonni calonnau pawb sy'n ymddiddori mewn Cerdd Dafod. Misolyn a fydd yn llwyfan i gynganeddwyr o bob math yw BARDDAS: fe fydd yn hybu gwaith creadigol, ac fe fydd hefyd yn ddolen gyswllt rhwng englynwyr, cynganeddwyr a beirdd ym mhob cwr o Gymru. Mae'r rhifyn cyntaf yn cynnwys erthygl gan Emrys Edwards ar R.S. Thomas; awdl Einion Evans i Ann Griffiths, un o awdlau gorau cystadleuaeth y Gadair yn Aberteifi; erthygl ar reolau newydd Cerdd Dafod gan T. Llew Jones; adolygiadau a chystadleuthau — a phentwr o farddoniaeth, wrth gwrs. Yn nwylo profiadol Alan Llwyd a Gerallt Lloyd Owen, y ddau olygydd, mae'r cylchgrawn hwn yn edrych fel petae am fynd o nerth i nerth. Cyst tanysgrifiad blwyddyn £2, a dylid ei ddanfon at Ysgrifennydd BARDDAS, Roy Stephens, Coed Mynach, Llanilar, Dyfed.

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

**SIOP LYFRAU AR DDAU LAWR YN AWR**

Y LLAWR CYNTAF.
Llyfrau Cymraeg, Eingl-Gymreig, Y Ddrama, Barddoniaeth Saesneg, Llenyddiaeth Geltaidd, Recordiau, Posteri, Cardiau cyfarch a Nadolig.

YR IS-LAWR.
Llyfrau Celf, Pensaerniaeth, Ffotograffiaeth, Sinema a Llyfrau i Blant.

GALWCH HEIBIO.

# DYDDIADUR DYN DWAD

## 4. STEDDFODWYR PUB(YR)

**"Wyt ti ddim yn meddwl bod hi dipyn bach yn hwyr i ddechra son am y Steddfod rwan?", medda fi wrth yr hogan sy'n gneud y papur 'ma, "a hitha'n dymor conkers?"**

**"Ma' nhw'n son am y Steddfod yn 'Y Faner' nes bod hi'n dymor celyn," medda hitha. On i ddim yn gwbod beth odd 'Y Faner' nes deudodd hi ma run fath â'r 'Cymro' odd o, ond heb lynia. Ond ma rhiwun yn dysgu rwbath bob dydd dydi? A fela gesh i hawl i sgwenu hwn am Steddfod Aberteifi er mod i beth uffernol yn hwyr.**

Gesh i bythefnos o holides haf gin Howells a iesu odd hi'n braf cal sticio mhen allan drw ffenast y tren tua Rhyl 'na ar y ffor i fynu i Gnarfon, a cal gwarad o ogla mothbols storws carpedi'r blydi gwaith 'na allan o'n ffroena. Ma gynon ni hen fastard o fforman sydd ar ych cefn chi drw'r dydd, ac ar ôl iddo fo ddeud yn sbeitlyd "Jones, you're a waste of space" wrtha'i pan wnesh i fôls ohoni a gyrru'r carpad peil rong i dŷ rhyw swancs yn Rhiwbeina, brafiach byth odd cal denig.

Peth cynta gesh i pan esh i mewn i 'Black Boy' nos Wener honno, cyn na "Croeso adra co' " na "Be ti'n yfad con?" odd "Wt ti'n dwad lawr i Steddfod efo'r hogia fory Gron Bach?" Cyn i fi gal yng ngwynt ata jest, na peint o M & B i lawr y nghorn gwddw na deud helo wrth yr hen fodan, roedd pump ohonan ni wedi stwffio tent a sleeping bags i fŵt Austin 7 Sam Cei'r Abar a bomio dros Pas Llanbêr am y Sowth eto. Tua unarddeg, stopion ni am beint cynta'r diwrnod yn Dolgella. Cymaint o draffic yn y lle medda Fferat Bach oedd yn dreifio, fel bod 'na ddim pwynt stryglo drwyddo fo.

Erbyn bora dydd Llun odd yr hogia wedi cal amball i sesh yn barod. Roddan ni'n gweiddi fel mylliwrs ar y ffordd i mewn i Aberteifi allan o ffenstri'r car nos Sadwrn, wedi yfad yr holl ffordd i lawr. Jest er mwyn gosod y patrwm am yr wythnos ia — oddan ni gyd yn blotto erbyn hannawr 'di deg. Wrth ista ar y maes yn Abarteifi yn digsyl i'r bêcyn ag ŵy agor bora Sul, ddoth 'na hen ddynas bigog heibio'r hogia a deud ma dyfaru fysan ni ryw ddwrnod. Tasa hi 'mond yn gwbod, odd yr hogia'n dyfaru reit dden and ddêr — tan tro nesa, ia! Gyda'r nos, pan odd hi'n dod o'r capal, mi welodd yr hogia'n ciwio i fynd i'r Clwb Rygbi.

Bora dydd Llun odd hi'n dechra llenwi go iawn a dodd na ddim cymaint ag un bwrdd na chadar yn y baria blaen yn yr 'Hope and Anchor'. Ar lawr fuo raid i'r hogia ddechra 'u hyfad. Ond odd hi mor ddiawledig o braf tu allan, ath Fferat a fi i ista ar y pafin cynas i êlio.

"Uffar o hwyl gweld pobol barchus Steddfod yn gorod cerddad rownda ni i basio," medda Sam Cei.

"Hey, you! Get up off there!" Nath yr hogia ddim troi 'u penna.

"Hey, you! You're blocking the gangway." Dim sylw.

Ddath y copar moel ma drosodd at Cooks a gafal yn 'i wallt hir o a gofyn os odd o wedi golchi glustia mis yma.

"Wyt ti'n siarad Cymraeg?" medda fi wrth y cop.

"Odw," medda fynta'n swta.

"Blydi siarada fo ta," medda Bob Blaid Bach sy'n ddistaw fel llgodan os na wylltith o.

Ond Bob Blaid Bach odd y cynta yn y Black Mareia wythnos honno am ei jeek. Nath yr hogia gythral o hwyl am 'i ben o weddill yr wsnos. Deud y bysan ni'n deud wrth Gwynfor Evans ac y bysa hwnnw, hen-ffasiwn fel mae o hefo cwrw, yn siwr Dduw o'u nadu fo fynd a'i bamfflets o gwmpas Sgubs o hynny mlaen!

"Gron bach, y blydi Gog yffernol!" Penniman a Gareth Connolly wedi cyrraedd y Steddfod i greu rycshiwns. Wedi ffeindio Clwb Rygbi odd yn gorad drw'r pnawn.

"Mae'r "New Ely" yn wag yn yr 'af," ebe Penniman, "ond ma'n well na chal blydi stiwdents a Gogs 'na!" Smalio ma nhw go iawn, ond dodd hogia dre ddim yn dallt hynny nag oedd?

"Trio codi strop ma'r bastard blewog yna Gron?" medda Fferat Bach.

"Iesu mawr, naci," medda fi, yn cal yn rhwygo'n ddau rhwng yn mêts adra a'n mêts newydd yn Gaerdydd.

"Deuda di betha annifyr wrthyn nhwtha a fydd bob dim yn iawn," medda fi. "F.W.A. 'sti," medda fi wedyn yn ddistaw yn 'i glust o.

"Deuda di wrthyn nhw Gron," medda Sam Cei, "sgin i ddim syniad be 'ma'r bastards yn ddeud — sdi?"

Deud y gwir odd yr hogia'n meddwl mod i'n dipyn o foi yn medru dallt hogia Sowth a siarad hefo nhw. On i fel intyrpeter drw'r wsnos ond odd o i gyd werth o er mwyn gweld Bob Blaid Bach a Connolly yn gafael yn ei gilydd yn dynn nos Wenar ac yn morio canu, "I'm a Bastard."

Y mistêc mwya neuthon nhw rioed yn y Llwyn Dyrus 'na lle rodd Edward Hetch yn canu odd trio nadu hogia dre fynd i fewn. Achos i mewn yr aetha'r hogia, ryw ffordd ne'i gilydd. Diwrnod wedyn gath yr 'ogia fodd i fyw gweld ei hanas yn y 'Western Mail'.

"Lle gest ti hwnna Gron?" medda Cooks. "Lot gwell na 'Daily Post', yndi?"

Ddim bod yr hogia wedi mynd ati'n fwriadol i neud llanast yn y lle. Ond be ond peipia'r bog sydd na i afael ynddyn nhw tra rydach chi'n sleifio i mewn drwy'r lle chwech tra bod Dafydd Iwan a'i fêts yn hel y ticedi yn y drws ffrynt? Mi blygon ac mi fystion nhw nes creu'r fflyds mwya diawledig welsoch chi rioed.

"Isho Arch Noa, ia?" medda Fferat wrth wagio'i bymps. A ella bod hi ddim yn gymint o shoc â hynny bod Mimw Besda'n sal fel ci os odd y barman 'na mor stiwpid a dal i syrfio fo a fynta 'di dal hi'n gachu ers oria.

"Ma nhw'n ddigon barod cymyd dy bres di, ond ddim isho'r draffath ia," medda Sam Cei. Rwbath yn beniog yn Sam weithia.

"Bragwyr Saesneg!" ebe Bob Blaid Bach, ar dop 'i lais.

"Ym, be?" medda bawb efo'i gilydd. "Lle glywist ti hynna?"

"Black-enameled baaaastad," ebe Penniman a'i lygaid yn gloewi. Mewn llais is na bas, canai Gareth Connolly'r "Foggy Dew" iddo fo'i hun drw'r twrw i gyd.

"Steddfod dda."

Oddan ni'n byta brecwast cynnar a phryd unwaith y dydd wedyn tua ganol pnawn.

"Chips aye. Fish aye. Bread and butter aye," medda Fferat yn y caffi.

"Do you want anything to drink with your meal?" medda fodan bach yn cynnig te neu goffi.

"Iesu, no. I had enough to drink already aye!" medda Fferat. Idiot 'di Fferat.

"Os ots 'da chi bido rhegi shwd gimint?" medda'r boi mewn oed 'ma odd efo'i wraig. Odd Fferat, sy'n dipyn o geg, am atab yn ôl fel bydda fo'n rysgol ond gesh i mewn o'i flaen o.

"Sori misus," medda fi. "Na ni drio cofio."

"Hy!" medda honno lawr ei thrwyn. "Dwn i ddim beth ma'ch siort chi eisiau yn y Steddfod, na wn i wir. Meddwi a slotian a....."

" 'Na ni, 'na ni," medda'i gŵr gan sbio'n ofnus ar yr hogia drw gil 'i lygad. "Gad e fod nawr Gladys."

Odd yr hogia rioed 'di clywed neb go iawn efo'r enw Gladys o blaen a fyrstion nhw chwerthin.

"Gladys wêr ar ew?" medda Cooks mewn llais Ryan Davies. "Godsan wirion," medda Fferat dan 'i wynt. A dyma hi'n ffrwydro!

"Y cari-dyms bach diwerth! Y moch bach disafonau! Difetha'r eisteddfod! Dwyn gwarth a chywilydd ar ŵyl y genedl. Gwneud son amdanon ni. Ar adegau fel hyn mae gen i gywilydd bod yn Gymraes, oes Mathew, tawn i'n marw'n y fan yma......" a dyma hi'n dechra sniffian crio.

Aeth yr hogia'n ddistaw i gyd. Bob Blaid Bach yn plygu'i ben ac wedi cochi braidd. Cywilydd bod yn Gymraes.... Hyd yn oed Cooks a Fferat yn meddwl bod nhw 'di mynd dros ben llestri. Neuthon ni dalu a gadael.

"Sori misus," medda fi cyn gadal, "fela ma'r hogia."

Pnawn hwnnw hefo'r cymylau bach gwyn yn nofio fel wadin yn yr awyr uwchben y môr a sŵn eroplêns yn bell bell yn yr awyr yn rhwla, mi gerddodd yr hogia yn ddistaw i fyny'r allt i'r cae. Mi brynon ni 'Lol' bob un, ista mewn cornal o'r lle llychlyd, sbio ar y llunia a darllan rhywfaint o'r jocs. Rodd rhywun, meddan nhw, wedi rogio hefo'r gadar a phawb yn poeni na fysa 'na ddim cwt i roid Steddfod flwyddyn nesa. Dydi Jorj Cooks ddim yn gwbod eto lle bydd hi ond mae o'n sbio 'mlaen fel yr hogia i gyd at fynd yno.

GORONWY JONES

# Gwers Werthfawr

**Cyfaddefiad ar unwaith. Fe broffwydiais i mai tri-ar-ddeg-ar-hugain yn erbyn tri fyddai'r sgôr derfynol yn y gêm rhwng Cymru ac Ariannin ar Hydref 16eg - i Gymru, wrth reswm. A throed dde Phil Bennett gyda chic ola'r gêm a'i henillod hi. Bobl bach, beth a aeth o'i le? Clamp o gwestiwn, a dweud y gwir, ac mae llawer o ddal pen rheswm, a dadlau a damcaniaethu wedi digwydd yn y pythefnos er y gêm, ond prin bod neb wedi cael hyd i'r ateb.**

'Roedd hi'n gynnar iawn yn y tymor ac nid oedd y garfan genedlaethol wedi cyfarfod; 'doedd hi ddim yn gêm ryngwladol swyddogol (gan nad ydy Ariannin yn aelod o'r Bwrdd Rhyngwladol) — dyna fel y buom ni'n ein cysuro 'n hunain, y rhan fwya' ohonom ni. Anodd fyddai cyfaddef bod y gŵyr o Dde America gystal chwaraewyr â'r goreuon yn y wlad hon, ond efallai y dylid gwneud hynny — mae rhai ohonyn nhw'n allt..og dros ben, fel rhedwyr yn fwya arbennig. Rhaid eu coldfori am eu parodrwydd i ymosod o'u 22 fedr eu hunain, a'r meddiant a gaen nhw o'r ysgarmesoedd a'r leiniau. Oes, mae gallu ganddyn nhw 'n ddiau, ac fe fydd croeso mawr iddyn nhw i'r Stadiwm Genedlaethol eto. Diddorol oedd darllen bodun gohebyddl enwog o Sais yn dweud y byddai Ariannin wedi curo Iwerddon, Yr Alban a Lloegr, ond 'enillson nhw ddim yma, cofier, ac mae cryn dipyn o wahaniaeth rhwng ennill o un pwynt gyda chic ola'r gêm hyd yn oed, a cholli.

Nid oedd Ffrainc yn y rhestr uchod, ac fe fu Ariannin yn y wlad honno flwyddyn yn ôl gan chwarae dwy gêm ryngwladol a cholli'r ddwy, y naill yn Lyon o 29 pwynt i 6, a'r llall ym Mharc des Princes o 36 i 21. Er i'r ymwelwyr ennill tair o'u gêmau 'n erbyn Timau Rhanbarthol, fe sgoriodd y Ffrancod un cais ar ddeg yn y ddwy gêm ryngwladol, ac un yn unig a sgoriodd Ariannin — gan Gauweloose — ac 'roedd tuag un-ar-ddeg o'r chwaraewyr a fu yma 'n chwarae yn y gêmau yn Ffrainc. Rhaid inni ddweud eu bod nhw wedi gwella 'n ddirfawr yn ystod y flwyddyn ddiwetha, ond 'roedd y Ffrancod hwyrach mewn gwell cyflwr na Chymru gan eu bod nhw wedi bod i Dde Affrig yn haf 1975. Mae hi'n debyg bod Ariannin wedi penderfynu newid eu dull o chwarae yn Ffrainc trwy bwysleisio rhedeg ymhlith yr olwyr yn hytrach na'r "bajadita" — y gwthio nerthol gyda'u blaenwyr — ac i'w chwarae ddioddef o'r herwydd. Fe ddywedwyd nad oedd eu holwyr yn ddigon da, er bod Porta, Travaglini, Becca-Varella, Gauweloose, Sansot a'r capten yng Nghymru, Rodriquiez-Jurado, yn eu plith.

**Y gwersi.** Symud y bêl i'r asgell mor aml â phosib heb boeni am groesi'r llinell fantais, i sicrhau y caiff yr asgellwyr gyfle i redeg gyda'r bêl a chreu rhagor o gyfle oni allan nhw sgorio eu hunain. Dyna'r wers fwya gwerthfawr y dylem ni ei dysgu gan y chwaraewyr lliwgar o Dde America. Yma gwneud yn siŵr fod rhywun wrth law bob tro i gefnogi'r chwaraewr gyda'r bêl. Ydych chi'n cofio'r enghraifft nodedig o hyn ar Hydref 16eg pan lwyddasan' 'nhw symud y bêl o'u llinell gais i'r ystlys ryw ddeg llath ar hugain i ffwrdd? Gellid rhoi'r bai yn y fan honno ar ein blaenasgellwyr a'r wythwr, meddech chi gyda pheth cyfiawnhad, ond fe edmygais i eu gallu a'u tacteg yn y sefyllfa honno. Hefyd pan oedd hi'n ddau ar bymtheg i chwech yn eu herbyn a Chymru'n bygwth sgorio tri neu bedwar cais arall, ni newidiodd Ariannin eu tacteg na cholli eu ffydd yn eu pasio a'u rhedeg. Yn sicr, maen' nhw'n haeddu aelodaeth y Bwrdd Rhyngwladol, ond dylem ni sicrhau bod Ffrainc yn cael eu tocyn gynta! Ai'r iaith Saesneg, tybed, sy'n sicrhau'r aelodaeth honno i wlad?

Ar Ionawr 15fed byddwn ni'n chwarae Iwerddon yn y Stadiwm Genedlaethol, ac ar ôl y gêm ar Hydref 16eg mae sawl Jeremia yn proffwydo amser caled. Yr unig amheuaeth sy gennyf fi yw a allwn ni sgorio pedwar pwynt ar ddeg ar hugain i gyrraedd y cant mewn tair gêm yn erbyn y Gwyddyl. Ar Chwefror 5ed ym Mharis bydd y gwir brawf, ac yn y gêm honno hwyrach y penderfynir ai Ffrainc ai Cymru fydd Pencampwyr Ewrob yn 1977. Da fyddai cyflawni'r Gamp Lawn ar Murrayfield ar Fawrth 19eg — llogwch eich lle ar y trên, yn y bws neu'r awyren i wneud yn siŵr y byddwch yng Nghaeredin i weld honno.

THOMAS DAVIES


**RICHARD BOOTH (BOOKSELLERS) LTD**

yw'r gwerthwyr llyfrau ail-law mwyaf ond un yn yr holl fyd, gyda saith siop wahanol yn Y Gelli, a rhyw filiwn o lyfrau ar werth ynddynt bob amser. Mae'r siopau i gyd ar agor ddydd Sadwrn ac erys rhai ohonynt ar agor dros y Sul hefyd. Prynnir a gwerthir pob math o lyfrau ail-law, a chroesewir ymwelwyr o bob math (byddai'n well gennym pe bai modd i bartïon drefnu eu hymweliadau ymlaen llaw).

*The Castle*
*Hay-on-Wye*
*via Hereford*
*POWYS*

*Hay-on-Wye 322*


# Côr yr Aelwyd (parhad o dud 1)

*Ffantasia Gorawl* Beethoven, *Stabat Mater* Dvorak, *Requiem* Brahms a *Tua'r Wlad Anhysbys* Vaughan Williams.

Fel Côr cystadleuol y daeth enwogrwydd i'r Côr a mewn cyfnod o wyth mlynedd, o 1962 i 1970, enillodd y Cor 23 o wobrau mewn cystadleuthau cenedlaethol, gan gynnwys 19 o gwpanau: roedd yn fuddugol bum gwaith ar gystadleuaeth Côr Aelwyd Eisteddfod yr Urdd; a phedair gwaith ar y Côr Ieuenctid yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillodd gystadleuaeth Ail Gorawl yr Eisteddfod Genedlaethol dair gwaith — a'r Prif Gorawl saith o weithiau!

Cydnabyddwyd camp orchestol y Côr yn Steddfod Abertawe, 1964 gan Gyngor Dinas Caerdydd drwy estyn iddo groeso swyddogol a chinio yn Neuadd y Ddinas i ddathlu'r achlysur. Hoffem ninnau yn awr ychwanegu ein llongyfarchiadau a diolch i'r côr hwn am yr holl fwynhad a roddodd i filoedd o bobl dros y blynyddoedd — a dymuno'n dda iawn i Alun Guy yn ei waith newydd, pwysig gyda Chôr yr Eisteddfod.

# Cynghorydd Newydd

Llongyfarchiadau gwresog i Penri Williams, y Creigiau, ar ei ethol yn Gynghorydd Sir ar Gyngor Canol Morgannwg mewn is-etholiad y mis diwethaf. Mae buddugoliaeth Penri yn golygu fod y Blaid yn dal i fod â deuddeg sedd ar y Cyngor Sir. Mae'r Cynghorydd newydd, sy'n wyth ar hugain oed, yn Gymro Cymraeg a fagwyd yn ardal Llantrisant a Chaerdydd; mae'n fab i Mr Ambrose Williams, Caerdydd.

# CRONFA'R GANOLFAN

**Araf yw'r ymateb i Gronfa Apêl Canolfan yr Urdd, Caerdydd hyd yn hyn, er bod rhai cyfraniadau unigol hael dros ben wedi dod i law. Apeliwn ar bob un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* i ymateb mor hael ag sy'n bosib i'r apêl bwysig hon, er cadw drysau Ganolfan ar agor ar gyfer y dyfodol. Os oeddech chi wedi meddwl cyfrannu, ond heb wneud eto, gwnewch rywbeth ynglŷn â hynny HEDDIW! Os collsoch chi'r ffurflen a oedd yn rhifyn mis Hydref, na hidiwch; dyma'r cyfeiriad y dylid danfon pob cyfraniad iddo:**

**MR ELWYN TUDNO JONES, HAFOD Y DDINAS, HEOL ISAF, RADYR, CAERDYDD.**


Swydd ran-amser hwylus i
**DEIPYDD/TEIPYDDES**
ym Mhrif Swyddfa Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, neu berson cymwys i ofalu am swyddfa yn y p'nawniau.

*Am fanylion pellach, cysyllter â Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, 11 Heol Gordon, CAERDYDD CF2 3AJ. Ffôn : 24692*


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*